

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Gorffennaf 31:

Cyd-addoli yng Ngwaelod-y-garth

Awst 7:

Y Parchg. D. Eirian Rees

Llywydd: Ann Rees

Awst 14:

Cyd-addoli yng Ngwaelod-y-garth

Awst 21:

Allan James

Llywydd: Ann Dixey

Awst 28:

Cyd-addoli yng Ngwaelod-y-garth

Medi 4:

Aelodau Tonteg a Phentre'r Eglwys
gyda Dr Keith Rowlands

Clwb Hwyl Gwyliau Haf



Mae gwahoddiad i blant a rhieni / mamgu / tadcu ddod at ein gilydd dros y gwyliau i chwarae a chymdeithasu

2il Awst – Gwlyptir Casnewydd
16eg Awst – Fforest Fawr, Tongwynlais
30ain Awst - Parc Gwledig Bryngarw

CASGLU DILLAD

I BLANT FFOADURIAID

Ewch i'r [Adran Newyddion](#) i weld lluniau rhai o'r plant bach mewn gwerysll i ffoaduriaid yng ngwlad Groeg yn gwisgo dillad a anfonwyd gennym ni fel aelodau'r Tabernacl. Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd mor hael at y casgliad. Byddwn yn dechrau casglu dillad gaeaf ym mis Medi, a dillad haf eto yn y gwanwyn.

Bydd y casgliad i helpu teuluoedd lleol mewn argyfwng yn dechrau eto pan fydd John Llew yn clywed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod yn barod i dderbyn dillad ac eitemau eraill gennym.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth nesaf, 26 Gorffennaf. Os oes unrhyw fater y carech ei godi cysylltwch gyda'r Ysgrif3ennydd, Gwilym Huws 01443 225205 neu gehpengwern@yahoo.co.uk

Te Bach Tabernacl, Yr Ais

Prynhawn AWST 14eg yw'r dyddiad nesaf i ni fel capel fod yn gyfrifol am helpu paratoi paned yn y Tabernacl, Caerdydd.

Mae angen dau neu dri i helpu ac mi fyddai'n braf petai rhai eraill hefyd yn fodlon paratoi brechdanau ar eu cyfer. Beth am rhywun sydd ddim wedi bod o'r blaen?

Mae croeso i unrhyw un ymateb i Margaret Calvert ar y ffôn (01443 222908) neu e bost calvertm@btinternet.com

Y plant lleiaf

Byddai'n dda petai'r plant yn gallu eistedd ym mlaen y capel am hanner cyntaf y gwasanaeth – a bydd meinciau addas ar gael yn fuan. Fodd bynnag, os yw rhieni gyda phlant bach yn eistedd i fyny'r grisiau, erfyniwn arnoch i fod yn ofalus i beidio a'u gadael i grwydro'n rhy rhydd. Mae pryder wedi ei fynegi am blant "free range" sydd yn mynd braidd yn agos at flaen y balconi.

ARGYFWNG LESOTHO



Anfonwyd £1,000 o'n casgliad Lesotho misol ni i helpu Mohale's Hoek a phentref arall yn Lesotho oedd mewn angen dybryd am fwyd oherwydd cyfnod maith o sychder. Aeth yr arian drwy gronfa Gwenallt Rees, Tabernacl yr Ais, a gyrhaeddodd gyfanswm o £9,000 i gyd.

Os oes gennych gyhoeddiadau:
geraintrees@hotmail.com
neu 07816341527

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser i olynu Ann Dixey. Disgwylir i'r sawl a benodir ddechrau ym mis Ionawr 2017.

Am fanylion pellach a thelerau cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk/ 01443 222833)

Wendy Reynolds (w.reynolds33@btinternet.com/ 01443 207392)

Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk/ 01443 225205)

Dyddiad Cau: Dydd Gwener 23^{ain} Medi 2016

Os hoffech fod yn rhan o'r criw sy'n cynnal y wefan, cysylltwch ag emlyn.davies@which.net